PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

21 HYDREF 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr: G. Davies a D.T. Williams.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
S. John, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion a Derbyn Disgyblion;
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd.

Rhith-Gyfarfod: 10:30yb - 10:50yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Gofynnodd y Cynghorydd Evans am gyngor cyfreithiol ynghylch buddiant posibl mewn perthynas â'r ymgeisydd dan sylw yn Eitem 4 ar yr Agenda. Ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, yn unol â'r cod ymddygiad, rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd Evans nad oedd ganddi fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD T.O.D. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod cludiant am ddim i T.O.D. i'r ysgol gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD bod yr apêl a gyflwynwyd gan T.O.D am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**